# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gwybodaeth*

### 37 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol cyflwyno dogfennau neu ddarparu gwybodaeth

(1) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod trwyddedu arfer y pwerau a roddir gan is-adrannau (2) a (3) mewn perthynas â dogfennau neu wybodaeth (yn ôl y digwydd) sy'n rhesymol ofynnol gan yr awdurdod—

(a) at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig ag arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon, neu

(b) at ddiben ymchwilio a oes unrhyw drosedd wedi ei chyflawni o dan y Rhan hon.

(2) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi o dan is-adran (1) roi hysbysiad i berson perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw—

(a) cyflwyno unrhyw ddogfennau sydd—

(i) wedi eu pennu neu eu disgrifio yn yr hysbysiad, neu sy'n dod o dan gategori o ddogfen sydd wedi ei bennu neu ei ddisgrifio yn yr hysbysiad, a

(ii) sydd yng ngwarchodaeth neu o dan reolaeth y person, a

(b) eu cyflwyno ar adeg, mewn lleoliad ac i berson a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi o dan is-adran (1) roi hysbysiad i berson perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw—

(a) cyflwyno unrhyw wybodaeth sydd—

(i) wedi ei phennu neu ei disgrifio yn yr hysbysiad, neu sy'n dod o dan gategori o wybodaeth sydd wedi ei phennu neu ei disgrifio yn yr hysbysiad, a

(ii) sy'n hysbys i'r person, a

(b) ei rhoi mewn modd ac ar ffurf a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Rhaid i'r hysbysiad o dan is-adran (2) neu (3) gynnwys gwybodaeth am ganlyniadau posibl peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad.

(5) Caiff y person y cyflwynir unrhyw ddogfen iddo yn unol â hysbysiad o dan is-adrannau (2) neu (3) wneud copi o'r ddogfen.

(6) Nid yw'n ofynnol o dan yr adran hon i unrhyw berson gyflwyno unrhyw ddogfen neu roi unrhyw wybodaeth y byddai'r person o fewn ei hawl i wrthod eu rhoi mewn achos yn yr Uchel Lys ar sail braint broffesiynol gyfreithiol.

(7) Yn yr adran hon, mae "dogfen" yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chofnodi ar ffurfiau nad ydynt yn ffurfiau darllenadwy, ac mewn perthynas â gwybodaeth sydd wedi ei chofnodi fel hynny, mae unrhyw gyfeiriad at gyflwyno dogfen yn gyfeiriad at gyflwyno copi o'r wybodaeth ar ffurf ddarllenadwy.

(8) Yn yr adran hon, mae "person perthnasol" yn golygu person a gynhwysir yn unrhyw un neu ragor o'r paragraffau canlynol—

(a) person sy'n gwneud cais am drwydded o dan y Rhan hon neu sy'n ddeiliad trwydded o dan y Rhan hon;

(b) person sydd ag ystâd neu fuddiant mewn eiddo ar rent;

(c) person sy'n ymwneud â gosod neu reoli eiddo ar rent, neu'n bwriadu bod yn ymwneud â hynny;

(d) person sy'n preswylio mewn eiddo ar rent.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 37 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 37 mewn grym ar 23.11.2015 gan O.S. 2015/1826, **ergl. 2(s)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 37.